

Rheoli dŵr glaw ffo yn gynaliadwy a chyflwyno ceisiadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS).

Taflen Cyngor Technegol

Cyflwyniad

Ym mis Ionawr 2019, daeth Deddf Rheoli Dŵr Llifogydd 2010 (Cymru) i rym, ac mae hynny'n golygu bod angen cyflwyno cais draenio cynaliadwy i'r corff cymeradwyo yn yr awdurdod lleol ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd¹ sy'n mesur dros 100 metr sgwâr. Yn hytrach nag ystyried hyn fel cyfyngiad neu reolaeth, dylem ni, fel tyfwyr, ystyried bod dŵr glaw yn adnodd gwerthfawr ar gyfer y fferm a'r cartref. Yma, rydym yn trafod rhai dulliau y gallwch chi eu defnyddio i sicrhau'r defnydd gorau o ddŵr glaw ar eich menter arddwriaethol, a sut (os gwnewch hynny'n effeithiol) y gallwch sicrhau datrysiadau draenio cynaliadwy da yn eich datblygiad nesaf. Mae awdurdodau SAB yn monitro'n rheolaidd, felly peidiwch â chael eich dal allan gan fod ôl-osod datrysiadau yn llawer anoddach ac yn llawer mwy costus.

Faint o ddŵr glaw?

Y cam cyntaf wrth gyfrifo sut i reoli a defnyddio dŵr yw cael mesurydd glaw. Mae ystod eang o fesuryddion proffesiynol ar gael ar-lein, gan gynnwys rhai digidol. Mae ymchwil a data ar gael ynghylch glawiad yn eich ardal, er enghraifft, [The Wallingford Procedure - for design and analysis of urban storm drainage - EPrints gan HR Wallingford](#), ond gallwch gyfrifo hyn eich hun trwy ddefnyddio dyddiadur i gofnodi faint o law sy'n disgyn trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, dylech edrych o ble y daw dŵr glaw ac ymhle mae'n llifo ar draws eich safle. Gellir gwneud hyn trwy arsylwi llif y dŵr pan fyddwch allan ar eich safle pan fydd hi'n bwrw glaw. Yna, gallwch gyfrifo faint yw arwynebedd adeilad neu lawr caled penodol (neu'r un yr ydych yn gwneud cynnig ar ei gyfer) a chyfrifo faint o ddŵr y bydd angen i chi ei reoli neu ei ddefnyddio.

Glawiad Blyneddol mm/blwyddyn x y Llecyn Cronni (m²) = Dŵr glaw y gellir ei gynaeafu (mae'r ffigur gwirioneddol yn debygol o fod yn 90% y cyfanswm hwn oherwydd natur y to, a gallai effeithlonrwydd unrhyw system hidlo leihau'r cyfanswm ymhellach.)

Cofiwch or-amcangyfrif hyn bob amser i ganiatáu ar gyfer digwyddiadau eithafol.

Ble bydd dŵr yn rhedeg, gwnewch iddo gerdded

Bydd dŵr yn llifo ar ongl sgwâr i'r cyfuchlin, neu'n syth i lawr allt. Bydd arsylwi eich tir yn ofalus yn dangos i chi ble mae dŵr yn llifo ac yn cronni. Diben systemau draenio cynaliadwy yw atal dŵr rhag cyrraedd y garthffos gyhoeddus (yn ddelfrydol), neu gan amlaf, ei arafu cymaint â phosibl i sicrhau y daw'n adnodd y gallwch ei ddefnyddio yn hytrach nag yn broblem. Gallwch helpu'r dŵr i ymdreiddio

¹ Unrhyw ddatblygiad, boed angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer neu beidio. Mae hyn yn cynnwys unrhyw strwythur neu ardal llawr caled, neu unrhyw fath o waith cloddio (gwaith peirianyddol) dros 100 metr sgwâr.



i'r ddaear fel y byddai'n ei wneud fel arfer pe na bai adeiladau neu loriau caled ar y tir, neu gallwch greu 'systemau' neu 'ddatrysiadau' i ddal dŵr a'i arafu.

Un o'r pethau cyntaf y gallwch ei wneud i wella cyfraddau ymdreiddiad yw gwella'ch pridd, cynyddu lefelau deunyddiau organig, creu pantiau, plannu coed a phlanhigion lluosflwydd eraill ar gyfuchlin, a chreu gwlyptiroedd sy'n cynnwys planhigion sy'n ffynnu mewn manau gwlyb.

Bydd cynyddu natur sbyngaid eich safle yn sicrhau y gall eich busnes wrthsefyll llifogydd a sychder yn well. Mae hyn yn rhan o gydweithio'n gyfannol â'r tir a'r hinsawdd er budd eich prosiect ac er budd y dirwedd ehangach.

Dulliau Rhyng-gipio Dŵr

Gallwn ddefnyddio ystod eang o ddulliau ar dir ein fferm i ryng-gipio dŵr. Mae'r [Nodyn Cyngori](#) hwn gan Lywodraeth Cymru yn cynnig esboniad da am rai o'r opsiynau sydd ar gael i ni. Mae'r nodyn hefyd yn cynnig awgrym da o'r hyn sydd ei angen ar gyfer datblygiadau newydd o ran cais SUDs a gyflwynir i'r SAB (y corff cymeradwyo).

Sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer SuDS

Mae'n bwysig cynllunio systemau draenio cynaliadwy i'w cynnwys yn eich datblygiad cyn cyflwyno cais cynllunio. Ceir chwe safon y mae angen eu bodloni yn eich cynnig, felly bydd yn bwysig cael trafodaethau cynnar â'r tîm SAB yn eich awdurdod lleol. Mae tudalen 5 yn y Nodyn Cyngori uchod gan Lywodraeth Cymru yn cynnig manylion cyfeiriadau e-bost yr holl gyrff cymeradwyo ledled Cymru. Fel arfer, byddant yn cynnig cyngor am ddim i chi dros y ffôn neu trwy e-bost, ond mae rhai awdurdodau yn brin o adnoddau a byddant yn annog trafodaethau ffurfiol cyn ymgeisio. Mae'r trafodaethau hyn yn bwysig iawn oherwydd pan fyddwch wedi cyflwyno eich cais ffurfiol, ni ellir ei newid, ac efallai y bydd angen i chi ei ailgyflwyno os na fydd pethau'n iawn. Fel arfer, codir ffi am gyngor cyn ymgeisio. Mae ffioedd awdurdodau SAB yn amrywio ledled Cymru. Yn achos rhai datblygiadau mwy, bydd angen i chi sicrhau gwasanaethau ymgynghorydd draenio a fydd yn gallu cyflwyno'r cais ar eich rhan. Fel arfer, codir ffi safonol o £420² at ddibenion cyflwyno cais SuDS i'r corff cymeradwyo. Fodd bynnag, bydd y ffi yn cynyddu ar sail arwynebedd y datblygiad. Ar ôl ei ddilysu, bydd y broses ymgeisio yn para hyd at 7 wythnos. Fel tyfwr, efallai y byddwch yn sylwi nad yw'r holl gwestiynau ar y ffurflen gais yn berthnasol oherwydd mae'r ffurflen gais yr un fath ar gyfer pob datblygiad. Dylid cael cymeradwyaeth cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Bydd archwiliad yn digwydd yn ystod a/neu ar ôl y gwaith adeiladu.

Gosod a defnyddio eich datrysiadau rheoli dŵr

Ceir ymgynghorwyr gwaith paratoi tir a wnaiff osod systemau cynaeafu dŵr glaw neu wneud y gwaith i drin y tir sy'n ofynnol at ddibenion rheoli dŵr. Gallwch hefyd wneud y gwaith eich hun, gan ddechrau efallai â datrysiadau llai cynhwysfawr megis plannu coed a systemau planhigion lluosflwydd ar lethrau, gosod systemau bychan i gynaeafu dŵr glaw a sefydlu pyllau gorlifo, gerddi dŵr glaw neu bantiau bychan.

[Choosing Ecological Water Supply and Treatment – Centre for Alternative Technology](#)

² Ym mis Ionawr 2025. Gallai'r costau hyn yn newid.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Gall Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol gynnig cyngor dylunio a chymorth i ganfod contractwyr priodol os bydd hynny'n anodd.

Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn deall sut mae'ch systemau'n gweithio oherwydd mae llawer o dyfwyr yn weithredwyr ac yn berchnogion, felly bydd yn rhaid i ni eu cynnal a'u cadw i sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â safon benodol.

Rydym yn argymhell y dylech fynd ati yn yr hirdymor i integreiddio eich adeiladau a'ch busnes i'r dirwedd ehangach, gan efelychu prosesau dŵr naturiol ac ystyried bod dŵr glaw a llifoedd dŵr (a allai ddod yn broblem fel arall) yn adnoddau a all wella cynhyrchiant, boed hynny yn achos plannu coed, systemau planhigion lluosflwydd, neu gynnyrch garddwriaethol.

Ffotograff enghreifftiol



System cynaeafu dŵr glaw ar fferm fechan yn yr Eidal. Credit: arte-util.org

Heading

Datrysiadau Draenio Cynaliadwy



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Sub Heading	Sut i gyflwyno cais draenio cynaliadwy Sut i ddylunio system cynaeafu dŵr glaw a datrysiadau eraill i'w defnyddio yn eich fferm

Ymwadiad

Ymdrechir yn deg i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a gynigir yn y nodiadau hyn. Bob tro y byddwch yn defnyddio cemegau amddiffyn cnydau, dylech wneud hynny yn unol â'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar y label, a dylech ddarllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Gall defnyddio plaladdwr beryglu'r defnyddiwr ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gallai cyfeiriadau at gymeradwyaethau yn unol â'r cyfarwyddiadau ac EAMUs at ddibenion defnyddio plaladdwyr newid, a gellir eu hatal ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw archwilio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr neu ficroorganebau llesol. Os yn ansicr, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad - mae cyngor trwy e-bost neu dros y ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn gwarantu, yn cymeradwyo, nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb neu ddibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen nac unrhyw wefan neu nodwedd y ceir dolen atynt mewn unrhyw faner neu hysbyseb arall.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO